Page

# Deuddeg prosiect arloesol ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Treftdaeth Gorwelion

27/02/2020



Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn gwahodd 12 o brosiectau sydd wedi dangos gweledigaeth, uchelgais a'r potensial i fod yn wirioneddol drawsnewidiol i gyflwyno cais i'r Gwobrau Treftadaeth Gorwelion.

Bydd pob prosiect yn cystadlu am gyfran o £50miliwn y mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn bwriadu ei ddyfarnu yn 2020. Dyma'r flwyddyn gyntaf o gronfa grant tair blynedd gwerth £100m i gyd, wedi'i chynllunio i chwyldroi treftadaeth y DU.

"Gofynnom am brosiectau uchelgeisiol, arloesol a thrawsnewidiol, nid yn unig o ran treftadaeth, ond i bobl a chymunedau hefyd. Cafodd y panel ei ryfeddu a'i ysbrydoli gan yr hyn a welodd."

Eilish McGuinness, Cyfarwyddwr Gweithredol a Chadeirydd Panel Gwobrau Treftadaeth Gorwelion yng Nghronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

## Newid treftadaeth

Mae pob un o'r prosiectau yn rhannu ein gweledigaeth i ddod â newid systemig i dreftadaeth ledled y DU. Mae nifer o themâu cymhellol sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys:

- ymateb i argyfwng newid hinsawdd
- mynd i'r afael â'r dreftadaeth sydd fwyaf mewn perygl
- ffermio ar gyfer y dyfodol
- gwella cydnerthedd a mentergarwch yn y sector treftadaeth
- helpu pobl a lleoedd i ffynnu

## Prosiectau trawsnewidiol

Dywedodd Eilish McGuinness, Cyfarwyddwr Gweithredol a Chadeirydd Panel Gwobrau Treftadaeth Gorwelion yng Nghronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Gofynnom am brosiectau uchelgeisiol, arloesol a thrawsnewidiol, nid yn unig o ran treftadaeth, ond i bobl a chymunedau hefyd. Cafodd y panel ei ryfeddu a'i ysbrydoli gan yr hyn a welodd."

"Roedd hefyd yn braf iawn gweld cynifer o gynigion yn cydnabod cyfraniad anhygoel y Loteri Genedlaethol yn ogystal â'n ffocws ar flaenoriaethau strategol gan gynnwys tirwedd a natur, treftadaeth sydd mewn perygl a chynhwysiant.

"Rydyn ni'n wirioneddol ddiolchgar i bawb a gyflwynodd, gan gynnwys y rhai nad ydyn ni wedi llwyddo i'w gwahodd i fynd â'u prosiectau ymhellach. Rydym yn optimistaidd eu bod wedi gweld y cyfle yma yn ymarfer buddiol, mewn rhai achosion yn datblygu syniadau y mae'n ddigon posibl y byddant yn cael eu cyflwyno mewn ffyrdd gwahanol.

"Rydym yn gyffrous iawn am gam nesaf y broses a byddwn yn awr yn gweithio gyda'r prosiectau cyn cyflwyno cais am gyllid datblygu yn ddiweddarach eleni."

## Y 12 prosiect ar y rhestr fer

Y prosiectau ar y rhestr fer a wahoddwyd i wneud cais am arian datblygu ar gyfer Gwobr Treftadaeth Gorwelion yw:

- **Cairngorms 2030: pobl a natur yn ffynnu gyda'i gilydd** – Awdurdod Parc Cenedlaethol Cairngorms
- **Archifau Creadigol: Prosiect Archif ar y cyd Sir Ddinbych a Fflint** – Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint
- **Diving in: A future for Moseley Road Baths** – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer Mannau o Ddiddordeb Hanesyddol neu Harddwch Naturiol
- **Great Yarmouth Gardens** - Cyngor Bwrdeistref Great Yarmouth

- **Amgueddfa Caethwasiaeth Rhyngwladol: gynnau syniadau a gweithredu** – Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl
- **Cynnydd mawndiroedd: gweledigaeth newydd ar gyfer y Fens** – Yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ar gyfer Swydd Bedford, Sir Gaergrawnt a Swydd Northampton
- **Parc Morol Cenedlaethol Plymouth Sound** – Cyngor Dinas Plymouth
- **Arbed Mavisbank: Dulliau arloesol o ymdrin â chymunedau treftadaeth** – Amgylchedd Hanesyddol yr Alban
- **Secured for our Children – Nature, World Heritage and Farming in the Lake District** – Sefydliad Lake District
- **Shipshape & Brunel Fashion** – Ymddiriedolaeth SS Great Britain
- **Gweddnewid Amgueddfa Werin Ulster: Prosiect i Bobl** – Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon
- **Vision 2025** – Amgueddfa Genedlaethol y Rheilffyrdd

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae'r Gwobrau Treftadaeth Gorwelion newydd, a lansiwyd gan y Prif Swyddog Gweithredol Ros Kerslake ym mis Mehefin 2019, wedi'u cynllunio i drawsnewid treftadaeth y DU drwy fuddsoddiad o £100m dros dair blynedd.

Erbyn hyn, mae gan y 12 prosiect tan fis Tachwedd 2020 i wneud cais am gyllid datblygu. Gwneir penderfyniadau yn gynnar yn 2021, a disgwylir i tua hanner y prosiectau ar y rhestr fer dderbyn cyllid i ddatblygu eu cynigion ymhellach.

Bydd y prosiectau hynny'n gwneud cais am y cyntaf o ddau swp o £50m ac mae ganddynt hyd at ddwy flynedd i gyflwyno cynigion cyflenwi, gyda dyfarniadau cyllid llawn yn cael eu penderfynu gan Fwrdd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.




## rdeb hefyd mewn ...




### th Gorwelion




**[Treftadaeth Gorwelion]**

## [Top tips for a successful Heritage Horizon Awards project]